

cyfrifiad
2021

**Diogelu eich
gwybodaeth
yw ein prif
flaenoriaeth**



Beth yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)?

Ni yw cynhyrchydd ystadegau swyddogol annibynnol mwyaf y Deyrnas Unedig (DU). Ymddiriedir ynom i gasglu a diogelu data. Rydym yn adrodd yn uniongyrchol i Senedd y DU, ond nid ydym yn gweithio i unrhyw bleidiau gwleidyddol.

SYG sy'n cynllunio ac yn cynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr.

Beth yw'r cyfrifiad?

Mae'r cyfrifiad yn digwydd bob 10 mlynedd ac mae'n rhoi darlun i ni o'r holl bobl a chartrefi yng Nghymru a Lloegr.

Roedd Cyfrifiad 2021 yn llwyddiant ysgubol. Bydd y canlyniadau yn rhoi'r darlun cyfoethocaf i ni o gymdeithas ledled Cymru a Lloegr. Rydym wedi troi miliynau o ffurflenni'r cyfrifiad y gwnaethoch chi eu cwblhau yn ystadegau y gallwn ni gyd eu defnyddio.

Drwy lenwi holiadur Cyfrifiad 2021, gwnaethoch chwarae eich rhan wrth greu darlun gwell o bob un ohonom.

Diogelu eich gwybodaeth yw ein prif flaenoriaeth

Ni all neb eich adnabod o'r ystadegau rydym yn eu cyhoeddi. Mae'r gyfraith yn diogelu'r wybodaeth bersonol y gwnaethoch ei rhoi i ni.

Gallwch fod yn hyderus:

- y byddwn yn ymdrin â'ch gwybodaeth mewn ffordd ddiogel, yn unol â safonau llywodraeth y DU
- ein bod yn dilyn mesurau diogelwch ffisegol a technoleg gwybodaeth (TG) i ddiogelu eich gwybodaeth
- ein bod yn prosesu eich gwybodaeth yn y DU, sy'n golygu ei bod yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth diogelu data'r DU
- pan gyhoeddwn ystadegau'r cyfrifiad, maent yn gwbl ddiennw ac ni ellir eich adnabod o'r wybodaeth ynddynt
- ni all ac ni chaiff eich gwybodaeth ei defnyddio gan y llywodraeth i effeithio ar hawliadau budd-daliadau, cais preswyllo, statws mewn fudo na threthi
- ni fydd sefydliadau preifat nac unigolion fel landlordiaid yn gallu cael gafael ar eich gwybodaeth bersonol
- cedwir cofnodion y cyfrifiad yn ddiogel am 100 mlynedd



Caiff eich gwybodaeth bersonol o'r cyfrifiad ei diogelu gan y gyfraith

Yn ôl y gyfraith, rhaid i'n holl systemau, staff a chyflenwyr ddiogelu eich cyfrinachedd. Ymhlith y ddeddfwriaeth sydd ar waith i ddiogelu eich data mae:

- Deddf Diogelu Data 2018
- Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)
- Deddf y Cyfrifiad 1920
- Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007

Ceir rhagor o wybodaeth am sut rydym yn cadw eich data'n ddiogel ar wefan Cyfrifiad 2021 yn

[cyfrifiad.gov.uk/preifatrwydd-a-diogelu-data](https://www.cyfrifiad.gov.uk/preifatrwydd-a-diogelu-data)

Cysylltu â ni

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyfrifiad.

Cyfeiriad e-bost: **census.customerservices@ons.gov.uk**